

Gwybodaeth i Gleifion am

Systosgopi, Biopsi a Diathermedd Anhyblyg

Yr Adran Wroleg

Beth yw Systosgopi anhyblyg?

Mae hyn yn cynnwys pasio systosgop anhyblyg (telesgop) trwy'r wrethra (pibell ddŵr) i'r bledren, pan fo amheuaeth am diwmor neu ardal amheus yn y bledren, er mwyn gwaredu'r broblem, cynnal biopsi neu ddefnyddio diathermedd. Gwneir y driniaeth o dan anesthetig cyffredinol (rydych chi'n cysgu) neu sbinol (byddwch yn ddideimlad o'ch canol i lawr). Gellir ei berfformio fel triniaeth achos dydd os ydych chi'n ffit ac yn iach heb unrhyw broblemau meddygol sylweddol eraill, neu fe'ch derbynnir i'r ward i aros dros nos.

Beth yw biopsi?

Mae hyn yn golygu cymryd samplau bach o'ch bledren sydd yna'n cael eu hanfon i'r labordy i'w harchwilio o dan ficrosgop.

Beth yw diathermedd?

Diathermedd yw'r broses o ddefnyddio cerrynt trydan amledd uchel i gynhyrchu gwres. Fe'i defnyddir i dorri neu ddinistrio meinweoedd neu i atal gwaedu.

Beth yw buddion o gael y llawdriniaeth hon?

Er mwyn rhagnodi a thrin problemau sy'n ymwneud â'r bledren.

Oes unrhyw risgiau? (1)

Cyffredin (mwy nag 1 o bob 10)

- Ychydig o waedu neu losgi wrth basio wrin am gyfnod byr ar ôl eich llawdriniaeth.
- Gosod cathetr dros dro.

Achlysurol (rhwng 1 o bob 10 ac 1 o bob 50)

- Haint ar y bledren y bydd angen gwrthfotigau ar ei gyfer.
- Dod o hyd i ganser neu abnormaledd arall sy'n gofyn am llawdriniaeth neu driniaeth arall.

Anghyffredin (llai nag 1 o bob 50)

- Gwaedu gohiriedig sy'n gofyn am gael gwared ar geuladau neu llawdriniaeth bellach.
- Anaf i'r wrethra sy'n achosi oedi wrth ffurfio creithiau (culhadau).
- Yn anaml iawn, tyllu'r bledren er mwyn gosod cathetr wrinol dros dro neu wneud atgyweiriad drwy lawfeddygaeth agored.

Haint a gafwyd yn yr ysbyty

- Coloneiddio MRSA (0.9% - 1 o bob 110). Haint Clostridium difficile yn y coluddyn (0.01% - 1 o bob 10,000).
- Haint MRSA yn y llif gwaed (0.02% - 1 o bob 5000).

A oes unrhyw driniaethau eraill?

Llawdriniaeth neu archwiliad agored – bydd eich meddyg yn trafod y rhain gyda chi os ydynt yn briodol.

Beth sy'n digwydd cyn y llawdriniaeth?

Cyn eich llawdriniaeth, bydd gofyn i chi ddod i Glinig Cyn Derbyn. Mae hyn i sicrhau eich bod yn iach ar gyfer eich llawdriniaeth, ac i arwyddo eich ffurflen gydsynio. Byddwch yn cael eich holi am eich iechyd cyffredinol a chewch rai neu'r cyfan o'r profion canlynol: profion gwaed ac wrin ac ECG (olrhain y galon). Mae'r rhain yn brofion arferol cyn llawdriniaeth. Byddwch hefyd yn cael y cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau. Mae hwn yn apwyntiad fel claf allanol, fydd yn para tua 1-2 awr. Mae'n bosib y bydd angen profion pellach/apwyntiad arall arnoch chi i weld anesthetydd cyn eich llawdriniaeth, os yw'r asesiad yn awgrymu bod hyn yn angenrheidiol. Gallwch ddod â pherthynas neu ffrind gyda chi os ydych chi'n dymuno.

Eich llawdriniaeth

Byddwch yn cael eich derbyn i'r ward y diwrnod cynt, neu ar fore eich llawdriniaeth. Cewch wybod am hyn yn y clinig cyn-derbyn. Bydd anesthetydd yn eich gweld ar yr adeg hon i drafod yr anesthetig a'r rheoli poen. Bydd meddyg yn trafod y llawdriniaeth a chymhlethdodau posib unwaith eto, yn ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych ac yn gofyn i chi lofnodi'r ffurflen gydsynio drachefn.

Gofynnir i chi beidio â bwyta nac yfed unrhyw hylifau nad ydynt yn glir e.e. cawl, llaeth ac ati, am 6 awr cyn eich llawdriniaeth. Ni ddylech gnoi gwm ar ôl hanner nos y noson cyn eich llawdriniaeth. Gallwch yfed hylifau clir am hyd at 2 awr cyn y llawdriniaeth.

Wedi hyn, gofynnir i chi beidio ag yfed unrhyw beth arall. Mae'n bwysig cymryd eich holl feddyginiaeth reolaidd ar fore eich llawdriniaeth oni bai eich bod yn cael eich cynghori i beidio.

Os ydych yn ddiabetig sy'n ddibynnol ar inswlin, bydd angen cyfarwyddyd arbennig arnoch – trafodwch hyn gyda'ch nyrs.

Cyn i chi fynd i'r theatr gofynnir i chi gael cawod a gwisgo gŵn ysbyty ac o bosib hosanau arbennig - bydd yr hosanau hyn yn helpu i leihau'r risg o gael ceuladau yn eich coesau. Os ydych yn bryderus a'i fod yn briodol, mae'n bosib y byddwch wedi cael meddyginiaeth i'ch ymlacio (pre-med), bydd hon yn cael ei rhoi i chi ar y ward cyn i chi fynd i'r theatr. Bydd nyrs yn eich hebrwng i'r theatr lle byddwch yn cael eich cludo i'r ystafell anesthetig lle byddwch yn cael eich anesthetig.

Beth fydd yn digwydd yn ystod y llawdriniaeth?

Bydd telesgop anhyblyg bach (systosgop) yn cael ei basio i'ch pledren trwy'r wrethra. Yna cymerir biopsïau neu tynnir ardaloedd annormal a defnyddir diathermedd os oes angen. Anfonir y samplau biopsi i'r labordy lle edrychir arnynt o dan y microsgop. Mae'r llawdriniaeth fel arfer yn cymryd tua 20-30 munud ond gall fod yn hirach os yw'r annormaledd yn fawr. Ar ôl y llawdriniaeth byddwch yn mynd i'r ardal adfer nes eich bod yn sefydlog ac yn ddigon da i ddychwelyd i'r ward.

Beth fydd yn digwydd wedi'r llawdriniaeth?

Bydd y nyrsys yn gwirio eich pwysedd gwaed, curiad calon, anadlu, poen a faint o ddŵr rydych yn ei basio yn gyson. Wrth i chi ddadebru o'r anesthetig bydd y gwirio'n digwydd yn llai aml.

Mae'r tiwbiau a'r draeniau a fydd gennych efallai wedi eu rhestru isod. Peidiwch â phoeni amdany'n nhw, maen nhw yno i roi hylifau ichi neu i ddraenio hylifau. Fe'u tynnir fel arfer yr un diwrnod neu'r bore wedyn.

- **Arllwysiad mewnwythiennol** - (IVI neu ddiferiad) – Caiff caniwla (tiwb plastig tenau) ei roi mewn gwythien yn eich braich a rhoir hylif drwy hwn i wneud yn siŵr na fyddwch yn mynd yn ddadhydredig. Gellir ei ddefnyddio i roi gwrthfotigau, gwaed ac ati yn fewnwythiennol. Pan fyddwch yn yfed heb deimlo'n sâl caiff yr IVI ei dynnu.

- **Cathetr wrinol** – O dro i dro bydd angen cathetr ar rai cleifion (pibell yn cael ei roi yn eich pledren drwy eich wrethra). Bydd wrin yn llifo drwy'r cathetr i fag. Fel arfer tynnir y cathetr oddi yno ar ddiwrnod y llawdriniaeth, neu'r diwrnod wedi hynny. Efallai bydd gwaed yn eich wrin – mae hyn yn arferol a dylai'r gwaed ddiflannu dros yr ychydig ddiwrnodau nesaf.

Pryd gallaf fynd adref?

Cleifion ward - fel arfer, gallwch fynd adref y diwrnod ar ôl eich llawdriniaeth.

Gall cleifion achos dydd fynd adref yn hwyrach yr un diwrnod ar ôl gwella o'r anesthetig os ydyn nhw'n teimlo'n dda a ddim yn cael unrhyw broblemau wedi hynny.

A fydd angen cael apwyntiad olynol?

Bydd apwyntiad claf allanol yn cael ei wneud ar eich cyfer i ddod nôl i'r clinig 6 wythnos ar ôl eich rhyddhau i fynd adref.

Gwybodaeth Rhyddhau

- Mae'n debygol o losgi neu bigo pan fyddwch yn pasio dŵr yn syth ar ôl eich llawdriniaeth. Dylai hyn wella dros 1-2 diwrnod.
- Os byddwch yn datblygu tymheredd, ac os bydd eich wrin yn ddrewllyd / cymylog ac yn llosgi wrth basio wrin, gallai fod yn arwyddo o haint wrin. Dylech gysylltu â'ch meddyg gan y bydd angen cwrs o wrthfotigau o bosib.
- Gallech weld gwaed yn eich wrin, mae hyn yn normal a dylai glirio ar ôl 4-7 diwrnod. Os nad yw'r gwaedu'n gwella neu os oes llawer o waed yn eich wrin, dylech ffonio eich meddyg teulu am gyngor.
- Cewch fwyta ac yfed fel arfer. Oni bai eich bod wedi cael cyngor i gyfyngu ar faint o hylif rydych yn ei yfed, dylech geisio yfed 1.5 i 2 litr o hylif bob dydd ar ôl eich llawdriniaeth i helpu i leihau'r risg o haint, a golchi ymaith unrhyw waed.
- Dylech aros am o leiaf 24 awr cyn gyrru neu ddychwelyd i'r gwaith ar ôl eich llawdriniaeth, cyhyd â'ch bod yn teimlo'n ddigon da i wneud hynny. Gwiriwch gyda'ch cwmni yswiriant pa bryd y mae'n fodlon ichi ddechrau gyrru eto ar ôl y llawdriniaeth.
- Gallwch gael rhyw cyn gynted ag yr ydych yn teimlo'n gyffyrddus i wneud hynny.

- Efallai y byddwch yn sylwi ar waed eto 10-14 diwrnod ar ôl eich llawdriniaeth, mae hyn fel arfer yn cael ei achosi pan fydd y grachen lle gwnaed y llawdriniaeth yn cwmpo i ffwrdd. Dylech gynyddu faint o hylif rydych yn ei yfed er mwyn ei fflysio allan. Pe bai'ch wrin yn parhau i fod â staen gwaed mawr arno ac nad yw'n clirio ar ôl cynyddu eich hylif neu os ydych chi'n cael ceuladau sy'n ei gwneud hi'n anodd pasio wrin, dylech ffonio'ch meddyg teulu cyn gynted â phosibl i gael cyngor.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, gweler y manylion cyswllt isod ar gyfer y wardiau Wroleg a'r nyrsys Wroleg:-

Wardiau Wroleg:-

D5 Gorllewin:- - 01633 – 234040 (24 awr)

D 5 Dwyrain: - 01633 – 234104 (24 awr)

Ward Dydd Wroleg:-

Rhif Ffôn: - 01633 – 656378 (oriau swyddfa dydd Llun i ddydd Gwener)

Adran Cleifion Allanol Wroleg:-

Rhif Ffôn: - 01633 – 234979 (oriau swyddfa dydd Llun i ddydd Gwener)

Nyrsys Wroleg

Janet Marty, Nyrs Arbenigol Wro-oncoleg:-

Rhif Ffôn: - 01633 – 656143 (oriau swyddfa dydd Llun i ddydd Gwener)

Maureen Hunter, Ymarferydd Nyrsio Wroleg:-

Rhif Ffôn: - 01633 – 234758 (oriau swyddfa dydd Llun i ddydd Gwener)

Julie Simpson, Nyrs Arbenigol Wro-oncoleg:-

Rhif Ffôn: - 01633 – 234758 oriau swyddfa dydd Llun i ddydd Iau

Stef Young, Nyrs Cyn-mynediad:-

Rhif Ffôn: - 01633–234533

Oriau swyddfa Llun – Iau

Cyfeiriad

1. British Association of Urological Surgeons (2014) <http://www.baus.org.uk>

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English”.**